Office, top of Post Office Lane in the said town'. Mae'n amlwg mai ymgais oedd hyn, fel yn achos *Cronicl Cymru*, i osgoi'r dreth stamp, a pharhaodd pethau felly hyd Medi 29ain, 1848, pan gyhoeddwyd mai hwnnw fyddai'r argraffiad olaf i'w gyhoeddi ar Ynys Manaw, a lle ceir y golygydd yn cwyno am yr anawsterau cyhoeddi a'i hwynebai beth bynnag. Prynwyd *Yr Amserau* yn 1859 gan un arall o gewri'r byd cyhoeddi yng Nghymru, Thomas Gee, Dinbych, a'i uno â'i *Faner Cymru* i ffurfio *Baner ac Amserau Cymru*, a oroesodd hyd 1992 fel wythnosolyn cyfredol / llenyddol o dan y teitl syml *Y Faner*.

Yn 1855, ychydig cyn diddymu'r Ddeddf Stamp, cyhoeddodd James Rees *Yr Herald Cymraeg* (Caernarfon), papur newydd arall sydd wedi goroesi hyd heddiw. Yn ddiweddarach, yn 1877, cyhoeddwyd *Y Genedl Gymraeg* (Caernarfon), wythnosolyn radical o dan ofal cwmni o ryddfrydwyr lleol, yn cynnwys David Lloyd George a wrthwynebai safbwynt uniongred *Yr Herald*. Bu rhai o newyddiadurwyr blaenaf y cyfnod yn gysylltiedig ag ef, a'i olygydd cyntaf oedd Beriah Gwynfe Evans. Yn 1888 ffurfiodd Lloyd George gwmni arall i sefydlu *Udgorn Rhyddid*, papur cenedlaethol radical arall i'w gynorthwyo yn ei gais i fynd yn Aelod Seneddol. Collodd ddiddordeb yn y papur ar ôl ei ethol i'r senedd yn 1890.

Yn ne Cymru argraffwyd *Y Gwron Cymreig* (Merthyr a'r Bont-faen 1838-39) gan Josiah Thomas Jones, gynt o Gaernarfon, un o arloeswyr y wasg bapur newydd Gymreg. Atgyfodwyd ef yn 1852 fel pythefnosolyn a gyhoeddid gan J. T. Jones yng Nghaerfyrddin ac yn ddiweddarach yn Aberdâr a oedd yn datblygu yn un o ganolfannau meysydd glo'r de. Fel y gellid disgwyl, yr oedd y papuryn wrth-sefydliad ei dueddiadau, a chefnogai'r gweithwyr yn erbyn perchenogion y gweithfeydd glo. Ymddangosodd *Y Gwladgarwr* (Aberdâr 1858) fel wythnosolyn, cyhoeddiad radical fel *Y Gwron*, ond heb fod mor angerddol wleidyddol. Beirniedid ef weithiau am roi gormod o ofod i eisteddfodau a gweithgareddau llenyddol. Yr oedd i'r *Gweithiwr* (Aberdâr 1858) fwy o apêl boblogaidd na'r *Gwron* gan geisio difyrru'r darllenwyr gwerinol â phethau fel stori gyfres a chornel y teulu. Byr fu ei barhad, a hynny i raddau efallai am mai J. T. Jones — gŵr â chanddo ddawn i ddenu helbul — a'i sefydlodd, a'i golygai, ac a'i hargraffai. Mae'n debyg mai'r mwyaf dylanwadol o blith papurau newydd Cymraeg de Cymru oedd *Tarian y Gweithiwr* a'i apêl at lowyr a gweithwyr tún yr ardal, a ymddangosodd am y tro cyntaf yn 1875 ac a barhaodd hyd 1931. Papur tebyg iddo yng ngogledd Cymru oedd *Y Chwarelwr* (Llanberis 1891), cyhoeddiad a anelid yn bennaf at chwarelwyr sir Gaernarfon, ac yn ddiweddarach *Y Dinesydd* a gyhoeddid o Fangor rhwng y 90au a'r Rhyfel Mawr.

Cyhoeddiadau enwadol mewn gwirionedd oedd y papurau newydd canlynol a berthynai i'r cyfnod hwn: *Seren Gomer* (1851), *Y Tyst* (1867), *Y Goleuad* (1869), *Y Gwyliedydd* (1877) a'r *Llan a'r Dywysogaeth* (1881). Gellir eu hystyried yn 'bapurau newydd' cenedlaethol o ddiddordeb cyffredinol i'r graddau eu bod yn cynnwys newyddion am faterion cartref a rhyngwladol ac yn darparu arweiniad ar bynciau gwleidyddol a lleol y dydd.

Un papur nad oes yr un copi ohono wedi goroesi yn anffodus yw'r *Cronicl Wythnosol*. Ni ellir amau iddo fodoli ym 50au'r ganrif ddiwethaf, gan fod gennym dystiolaeth ei olygydd Lewis W. Lewis *(Llew Llwyfo)*, bardd a diddanwr. Ym mis Gorffennaf 1877 ysgrifennodd fel hyn yn *Y Darlunydd:*

> Ym mhen enyd cefais y fraint o fod yn gydswyddog âg Ieuan Gwyllt, yn yr un swyddfa, yn ngwasanaeth yr hybarch Mr John Lloyd, perchennog a chyhoeddwr yr *Amserau* . . . Efe a ddilynodd . . . Hiraethog fel golygydd yr *Amserau*, a minnau a benodwyd yn olygydd papyr ceiniog o'r enw y *Cronicl Wythnosol* yn cael ei gyhoeddi . . . yn yr un swyddfa. Byddem o angenrheidrwydd, yn gorfod ymgynghori â'n gilydd beunydd . . . Yr oedd rhyfel y Crimea yn ei angerddoldeb ar y pryd, a'r holl wlad, oddigerth ychydig bersonau mwy pellweledol a gwrol na'r lluaws, mewn math o dwymyn neu gynddaredd o ddigllonedd yn erbyn Rwsia ac o blaid Twrci. Taflodd Ieuan Gwyllt . . . ei holl alluoedd o blaid caredigion heddwch . . . Yr wyf yn cyfaddef fy mod i . . . yn mhlith y gwallgofiaid gwrth-Rwsiaidd . . . Aeth y *Cronicl Wythnosol* yn fwy poblogaidd na'r *Amserau* . . . oblegid y llanw rhyfelgar oedd wedi gorlifo'r wlad.

Byddai'r *Cronicl Wythnosol* heb amheuaeth yn ddeunydd darllen cyfareddol heddiw. Ai gormod fyddai gobeithio fod copi — neu rediad cyflawn hyd yn oed! — yn disgwyl ei ddarganfod mewn rhyw gornel anghofiedig?

*The Cambrian Daily Leader* a ymddangosodd yn 1861 oedd y papur newydd dyddiol cyntaf i'w gyhoeddi yng Nghymru. Dilynwyd ef gan y *South Wales Daily News* (Caerdydd 1872) a'r *South Wales Daily Post* (Abertawe 1893), ond y *Western Mail* a ddatblygodd i fod yn flaenaf ymhlith papurau dyddiol Cymru, ac felly y pery hyd heddiw. Sefydlwyd ef yn bapur ceidwadol ar ôl estyniad yr etholfraint yn 1867, ond hyrwyddodd hefyd ddyheadau cenedlaethol Cymreig drwy gynnwys pob agwedd ar y bywyd Cymreig, yn gymaint felly nes cael ei ddisgrifio gan ysgrifennwr Rhyddfrydol yn 1895 fel 'yr asiantaeth genedlaethol gryfaf sydd gennym yn y wlad'.

Yng ngogledd Cymru, lle nad ymddangosodd yr un papur dyddiol, cyhoeddid y *North Wales Chronicle* (Bangor 1827) yn wythnosol, ac fel yn achos y *Western Mail*, y mae wedi para hyd heddiw. Fel y *Western Mail* hefyd, papur ceidwadol oedd yntau, sy'n eithriad, gan mai radical o ran agwedd oedd tuedd y rhan fwyaf o'r papurau newydd a gyhoeddwyd yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Heriwyd ef yn 1831 gan y *Carnarvon Herald*, a aeth yn *Carnarvon and Denbigh Herald* yn 1836, ac sy'n para heddiw o dan y teitl hwnnw. Fel yn ne Cymru yn hanes y *Monmouthshire Merlin* (Casnewydd 1829) a'r *Glamorgan, Monmouth and Brecon Gazette and Merthyr Guardian*, a adnabyddir wrth yr enw *Merthyr Guardian* (Merthyr 1832, Caerdydd 1841), yr oedd ymrafael parhaus rhwng y ddau bapur gogleddol hyn oherwydd eu gwahanol safiadau gwleidyddol.

Yn hwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg bu effaith diwydiannu yn helaeth ar dwf y diwydiant papur newydd yng Nghymru. Bu cynnydd sydyn ym mhoblogaeth yr ardaloedd diwydiannol megis maes glo'r de. Datblygodd porthladdoedd, trefi marchnad a chanolfannau gwyliau fel canlyniad, a rhoddwyd lle blaenllaw i wella ffyrdd a chysylltiadau'r post. Yn 1855 dilewyd y dreth ar hysbysebu, a'r doll ar bapurau newydd, gan agor y fflodiardau yng Nghymru fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Erbyn 1860 cyhoeddid 25 o bapurau newydd yng Nghymru, ffigwr a gododd i 61 yn ystod yr ugain mlynedd ganlynol, 13 o'r rheiny yn yr iaith Gymraeg; ac i 95, gyda 15 ohonynt yn Gymraeg, erbyn 1893.

Nid yw'n syndod efallai bod J. E. Vincent yn gallu dweud yn y *Times* yn 1893:

> Bu twf newyddiaduriaeth, ac yn enwedig newyddiaduriaeth yn yr iaith frodorol, yn y Dywysogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, yn

*(Parhad ar dudalen 19)*


**CANLLAWIAU CADWRAETH: AROLWG A GWEITHREDU**

**Adroddiad LISC (Cymru)**

Cyngor ymarferol a sylfaenol i bawb sydd â chasgliadau o lyfrau, llawysgrifau, archifau neu ddarluniau yn eu gofal.

**£2.00 (cludiad yn ychwanegol)**

**YR ISADRAN FARCHNATA**
**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**
**ABERYSTWYTH, DYFED SY23 3BU**

**CONSERVATION GUIDELINES: SURVEY AND ACTION**

**A LISC (Wales) Report**

Practical and basic advice for all who have responsibility for books, manuscripts, archives or pictures.

**£2.00 (postage extra)**

**THE MARKETING SECTION**
**THE NATIONAL LIBRARY OF WALES**
**ABERYSTWYTH, DYFED SY23 3BU**